

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Nuffield Health, Ysbyty Vale
Dyddiad y gweithgarwch: 27 Ionawr
2021

Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty'r Fro, sy'n rhan o Nuffield Health, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae Ysbyty'r Fro yn darparu amrywiaeth o driniaethau diagnostig a llawfeddygol dewisol. Ymhlith y cyfleusterau mae theatrau llawdriniaeth, ystafelloedd ymgynghori, gwasanaethau diagnostig a ward 25 gwely (sy'n cynnwys cyfres o ystafelloedd en-suite unigol), ynghyd â dau wely mewn Uned Triniaeth Uchel ddynodedig.

Mae gan yr ysbyty amrywiaeth o gyfleusterau pelydr-X. Fodd bynnag, ni chafodd cyfleusterau o'r fath eu harolygu yn ystod yr ymweliad hwn, am fod AGIC yn eu hystyried drwy ran arall o'i rhaglen arolygu sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm cyfunol o staff gofal iechyd, gweinyddol a chymorth; a meddygon ymgynghorol sydd â breintiau ymarfer diffiniedig yn yr ysbyty. Arweinir y tîm o staff gan Gyfarwyddwr yr Ysbyty (sef y rheolwr cofrestredig) ac Unigolyn Cyfrifol.

Darperir cymorth meddygol gan swyddog meddygol preswyl, ar sail 24 awr, saith diwrnod yr wythnos.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Chyfarwyddwr yr Ysbyty (y Rheolwr Cofrestredig) a'r Fetron ar 27 Ionawr 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?

-
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
 - Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Drwy gydol pandemig COVID-19, dynodwyd y gwasanaeth yn safle gwyrdd¹. Roedd pob claf wedi bod yn destun gweithdrefnau cyn-asesu manylach er mwyn sicrhau ei fod yn addas i gael triniaeth, gan gynnwys cael prawf COVID-19 negatiff cyn cael unrhyw driniaeth. O ganlyniad, roedd y gwasanaeth wedi gallu rheoli'r llif cleifion yn ofalus, a oedd wedi ei alluogi i barhau i ddarparu amrywiaeth o driniaethau dewisol².

Gwnaethom gadarnhau bod asesiad risg a chynllun gweithredu wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau bod amgylchedd y cleifion yn addas, a bod y rhain wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan Gyfarwyddwr yr Ysbyty a'r Fetron.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o bwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a hybu diogelwch y cleifion yn yr amgylchedd, megis y pwyllgor iechyd a diogelwch, y pwyllgor dadebru a'r pwyllgor dyfeisiau meddygol.

Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o archwiliadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o brosesau rheoli meddyginiaethau, trin cleifion a niwed i'r meinwe. Gwelsom brosesau llywodraethu clir lle roedd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu hadolygu a'u trafod er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwyso.

Mae pob claf yn cael gofal mewn ystafell en-suite unigol er mwyn cynnal ei breifatrwydd a'i urddas. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael gŵn llofft a bod arwyddion goleuadau traffig yn cael eu gosod ar ddrysau ystafelloedd y cleifion i ddangos pan fyddant yn cael gofal uniongyrchol neu'n cael eu harchwilio.

¹ Safle heb COVID-19 dynodedig

² Triniaethau llawfeddygol a drefnir ymlaen llaw

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod proses glir ar waith i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau drwy gyfarfod chwarterol o'r pwyllgor atal a rheoli heintiau, a gadeirir gan y Fetron, fel arweinydd atal a rheoli heintiau y gwasanaeth. Ategwyd y trefniadau hyn gan bolisiau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cynhwysfawr, a adolygwyd yn ddiweddar, a oedd wedi'u llunio ar lefel gorfforaethol ac wedi'u haddasu i fodloni gofynion lleol y gwasanaeth.

Gwelsom fod cyfran uchel o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys ymarferion ar-lein ac ymarferion ymarferol, megis Techneg Ddi-gyffwrdd Aseptig³ a hylendid dwylo.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwelsom fod y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol wedi parhau'n sefydlon, a'i fod yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod digon ar gael. Roedd profion ffitio wyneb⁴ wedi'u cynnal gan swyddog profion ffitio wyneb arweiniol, ac roedd hyfforddiant ychwanegol ar wisgo a diosg hefyd wedi'i ddarparu er mwyn helpu'r staff i wisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol yn gywir.

Gwelsom dystiolaeth bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu cleifion, ymwelwyr a staff rhag COVID-19, a oedd yn cynnwys cwblhau asesiad risg a chynllun gweithredu, a adolygwyd yn ddiweddar. Roedd y camau hyn yn cynnwys sgrinio'r staff a'u profi am COVID-19 ddwywaith yr wythnos, a chyfnod o warchod a'r gofyniad i bob claf gael prawf COVID-19 negatif cyn cael triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys ailbrofi cleifion a oedd wedi'u derbyn ers cyfnod hwy na thridiau a phrofi hebryngwyr, lle bo angen.

Roedd polisi dim ymwelwyr ar waith yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, cadarnhaodd y gwasanaeth, os bydd angen i hebryngwr aros gyda chlaf, y gellir gwneud eithriadau er mwyn galluogi hyn i ddigwydd yn ddiogel.

Roedd amrywiaeth o archwiliadau atal a rheoli heintiau diweddar â sgôr uchel wedi'u cynnal

³ Dull a ddefnyddir i atal heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd yw Techneg Ddi-gyffwrdd Aseptig.

⁴ Mae hyn yn galluogi staff hyfforddedig i sicrhau bod cyfarpar diogelu anadlol yn ffitio staff eraill yn gywir a'u bod yn cael hyfforddiant digonol i'w ddefnyddio.

hefyd, gan gynnwys archwiliadau ar sgrïbs theatr, hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol.

Dyweddod y gwasanaeth wrthym hefyd fod y rheolwyr yn cynnal hapwiriadau ansawdd rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran atal a rheoli heintiau mewn modd rhagweithiol a chefnogol. Roedd negeseuon atgoffa wedi'u gosod drwy'r ysbyty hefyd, er mwyn atgoffa'r staff, cleifion ac ymwelwyr am yr angen i wisgo masgiau a chynnal hylendid dwylo da.

Gwelsom dystiolaeth bod gweithdrefnau glanhau gwell wedi'u rhoi ar waith ym mhob ardal i gleifion a phob ardal glinigol, megis glanhau manau cyffwrdd yn rheolaidd⁵. Roedd y staff cadw tŷ hefyd wedi cwblhau hyfforddiant priodol er mwyn iddynt gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol.

Gwelsom fod gofynion o ran awyru wedi'u hystyried yn yr asesiad risg a bod y staff yn ymwybodol o'r adegau glanhau⁶ yn yr ardaloedd clinigol. Dywedodd y staff wrthym fod dull darbodus o ymdrin â thriniaethau wedi'i fabwysiadu er mwyn sicrhau mai dim ond triniaethau hanfodol a ddarperir yn ystod y pandemig. Roedd hyn wedi cynnwys atal neu gyfyngu ar driniaethau sy'n cynhyrchu aerosol i ddechrau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar yr hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiâu (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddwyd wrthym fod y lleoliad wedi llwyddo i gefnogi Bwrdd Iechyd Lleol y GIG drwy gynnal nifer o driniaethau diagnostig a sensitif o ran amser. Gwelsom dystiolaeth o gydbertnasau gwaith effeithiol, gan gynnwys staff nyrsio'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y safle i gefnogi'r broses o wirio cleifion y GIG cyn eu derbyn a gweithdrefnau gweithredu safonol integredig i sicrhau cysondeb.

Er mwyn bod yn fodlon ar addasrwydd clinigydd i ymarfer, dangosodd y gwasanaeth weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer caniatáu breintiau ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau manylion

⁵ Proses o lanhau eitemau neu ardaloedd allweddol a gaiff eu cyffwrdd yn rheolaidd yn ystod y dydd, e.e. dolenni drysau, switshys golau, ac ati

⁶ Nod adeg lanhau yw galluogi defnyddio i setlo a chael eu tynnu o'r aer

adnabod, statws cytundebol a chofrestriad proffesiynol.

Dywedodd y gwasanaeth wrthym na fu unrhyw broblemau amlwg o ran staffio yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y gwasanaeth yn cynnal nifer o driniaethau dewisol, a oedd yn ei alluogi i flaengynllunio'n effeithiol. Roedd argaeledd nifer iach o staff banc⁷ wedi cefnogi hyn ymhellach hefyd.

Dywedwyd wrthym y bu sawl achos lle cafodd aelod o'r staff brawf COVID-19 positif. Fodd bynnag, roedd yn galonogol clywed bod y gwasanaeth wedi pennu mai achosion unigol, ar wahân oedd y rhain, heb unrhyw gysylltiad hysbys â'r gweithle. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael asesiad risg yn y gweithle.

Gwelsom enghreifftiau da o'r cymorth sydd ar gael i'r staff, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i roi adborth, gyda phwyslais ar anghenion lles emosiynol y staff.

Gwelsom dystiolaeth o lefelau cwblhau hyfforddiant gorfodol uchel ym mhob maes, a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei fonitro'n ofalus gan y rheolwyr ar y safle ac ar lefel gorfforaethol.

O dan y rheoliadau, yr Unigolyn Cyfrifol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff lleoliadau cofrestredig eu rheoli. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â'r gwasanaeth a'r gwaith o lunio adroddiad bob chwe mis. Roedd yn bleser gennym nodi, yn dilyn yr ymweliad diweddaraf, fod adroddiad manwl wedi cael ei lunio. Roedd hyn yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r lleoliad a rheolaeth yr Unigolyn Cyfrifol drosto.

Gwnaethom edrych ar sampl o ddigwyddiadau a'u trafod â'r lleoliad, er mwyn deall sut y rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau, sut y cawsant eu rheoli a sut yr ymatebwyd iddynt. Disgrifiodd y gwasanaeth broses glir ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys y ffordd y cawsai'r rhain eu hadolygu gan y rheolwyr clinigol a'r ffordd y cawsai gwersi eu rhannu.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella

⁷ Staff banc yw'r enw cyfunol a ddefnyddir ar gyfer cronfa o bobl y gall cyflogwr alw arnynt o fewn y sefydliad pan fydd angen iddynt weithio.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.